

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Cysylltiad y Criw Mentrus â'r Cwricwlwm yng Nghymru

Bwriedir i'r gweithgareddau isod fod yn ganllaw i athrawon i gefnogi defnyddio cystadleuaeth y Criw Mentrus i ddatblygu sgiliau Llythrenedd a Rhifedd allweddol o'r FfCD



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Sgiliau Cwricwlwm Allweddol

- LIG1 – Gwrando'n Astud
- LIS4 – Siarad â Chynulleidfa
- LIC1 – Trafodaethau
- LIC2 – Siarad gyda phwrpas i gwblhau tasg

Gweithgareddau Llafaredd i'w hybu

- Ar ôl gwranddo, mae'r disgyblion yn creu nodyn bras o fanylion y dasg mae'n rhaid iddyn nhw ei chwblhau h.y. dewis a dylunio prosiect
- Wrth wrando, mae'r disgyblion yn creu rhestr pwyntiau bwled o wybodaeth allweddol i'w thrafod yn eu grŵp
- Ar ôl gwranddo, mae'r disgyblion yn treulio 30 eiliad ar "Ysgrifennu'n Gyflym" yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth â'u grŵp
- Cyn siarad â chynulleidfa mae'r disgyblion yn ymarfer eu technegau taflu eu llais, gan ganolbwyntio ar anadlu â'r diaffram a safle'r llais o fewn y geg
- Yn ystod trafodaethau grŵp, mae'r disgyblion yn defnyddio cardiau ysgogi i adeiladu ar syniadau pobl eraill a'u datblygu

www.ycriwmentrus.com

 @SyniadauMawrCym

 SyniadauMawrCymru

SyniadauMawr.cymru

Noddwr
Cysylltiadau
Cwricwlwm



Busnes | Business
Cymru | Wales

Sgiliau FflLRhC

LIG Llafaredd-Gwrando

LIS Llafaredd-Siarad

LIC Llafaredd-Cydweithredu a Thrafod

SD Strategaethau Darllen

DD Darllen a Deall

YY Ysgrifennu am Ystyr

RhRh Rhesymu Rhifiadol

M Mesur

D Trin Data

CD Cymhwysedd Digidol



Cysylltiadau â Phynciau Cornerstones

CS CA2 Isaf CA2 Uchaf

- Albwm Teuluol
- Archfarnad
- Bwyd Byd-eang
- Gweledigaethau Newydd
- Stŵr Robotiaid
- Dylunwyr Dillad Chwaraeon
- Rhandir
- Blits
- Oriel
- Dognau

Gweithgareddau Rhifedd i'w hybu

- Rhesymu Rhifiadol
- R17/18 Gweithio gydag arian
- M5 Amser
- D2/D3/D4 – Trin Data

Dylai disgyblion allu casglu, cofnodi, cyflwyno a dadansoddi eu data gan ddefnyddio amrediad eang o graffiau a diagramau. Dylai'r rhain gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion lunio eu graffiau eu hun, gan ddewis y diagram a'r graddfeydd mwyaf priodol. Hefyd caiff disgyblion grwpio eu data lle bo'n briodol a gwneud cymariaethau rhwng setiau gwahanol o ddata ar wahân.

Sut olwg fyddai ar hyn wrth ei gynllunio?

Sgiliau Darllen sy'n cael eu Datblygu gan y Criw Mentrus

- DD3 – Darllen a Deall – Adnabod Gwybodaeth
- DD6 – Darllen a Deall – Darllen at ddibenion Mwynhad ac Ymchwil

I ddeall testun yn llawn, rhaid i ddisgyblion allu Adalw ac Ailadrodd (DD2) yr wybodaeth yn gywir a rhaid iddynt allu Casglu (DD4) syniadau sydd heb eu datgan yn agored yn y testun. Yn y gystadleuaeth yma, bydd Creu Cysylltiadau rhwng testunau yn holl bwysig hefyd yn y cam ymchwilio a datblygu. Mae gallu Gwerthuso Cynnwys a dibynadwyedd testunau, yn arbennig testunau sydd ar-lein, yn sgil darllen ar radd uwch mae'r gystadleuaeth yn rhoi amrediad o gyfleoedd i'w ddatblygu.

